

GOGONEDDU DUW Â PHOPETH SYDD GENNYM

Nodyn i'r siaradwr:

Adailadwch werthfawrogiad yn y galon am y fraint werthfawr sydd gennym o ddefnyddio'n bywyd i ogoneddu Jehofah. Dangoswch fod hyn yn bosib' er efallai mai ychydig sydd gennym i'w gynnig o safbwynt y byd. Ysgogwch y gynulleidfa i'w rhoi eu hunain yn llwyr ac felly roi i Jehofah yr anrhydedd a'r gogoniant a iawn haedda

PAM HAEDDA JEHOFAH EI OGONEDDU (5 mun.)

Y gair Hebraeg a gyfleithir "gogoniant" fynychaf yw *ka-vohdh'*, sydd â'r ystyr "trymder" iddo (*w91 2/1 10 ¶13; it-1 963*)

Gwneir person a ogoneddir fel hyn yn bwysfawr neu'n sylweddol; dyrchefir ei urddas, ei anrhydedd, a'i werth Y gair Groeg sy'n cyfateb i *ka-vohdh'* yw *do'xa*

Mae iddo'r ystyr bri, anrhydedd, neu ysblander

Ac yntau'n Greawdwr Mawr ac yn Arglwydd Frenin, mae Jehofah yn deilwng o'i ogoneddu (Dat 4:11)

Mae angylion nerthol y nef yn rhoi gogoniant iddo (Dat 7:11, 12; *re 124 ¶15-16*)

Wrth gyhoeddi geni Iesu, gogoneddodd angylion nefol Dduw (Lc 2:14; *w87 4/1 13-14*)

Gymaint mwy y dylem ni fodau dynol iselradd ogoneddu Duw!

'Rydym yn elwa oddi wrth holl ddarpariaethau da a pherffaith Jehofah (Iago 1:17)

Rhoddd fwyaf Duw oedd darpariaeth ei Fab i'n prynu'n ôl (In 3:16; 1In 4:9)

Gelwir ar yr holl bobl i roi gogoniant i Jehofah o ystyried ei enw a'i hawl brenhinol (Salm 96:7, 8, 10; 145:11-13; *w90 9/15 16-18*)

PAM MAE CYN LLEIED YN EI OGONEDDU HEDDIW (5 mun.)

Mae mwyafrif dynoliaeth yn cael eu dallu gan Satan a'i esiampl hunanol (2Cor 4:4)

Mae dynion yn ceisio'u gogoniant eu hunain drwy ymdrechu i wneud enw iddynt eu hunain a derbyn gogoniant y naill gan y llall (In 5:40-44; 7:18; *w76 327 ¶2*)

Maen' nhw fel brenin Tyrus, a efelychodd Satan y Diafol (Esec 28:14, 15)

Mae llawer yn gwrthod cydnabod amlygiadau eglur grym a mawrhydi Jehofah (Rhuf 1:20, 21)

Gan fwriadol ddianrhydeddu Gair Duw, mae llawer yn dod yn anfoesol gan ogoneddu yn eu haflendid eu hunain (Rhuf 1:24-27; *g89 7/8 26-7*)

YM MHA FFYRDD Y MEDRWN NI OGONEDDU DUW? (10 mun.)

Sefydlodd Iesu batrwm gogoneddu'i Dad wrth ymostwng yn llwyr i ewyllys Duw (Phil 2:5, 6; Heb 10:7, 9)

Gogoneddodd Dduw trwy gyhoeddi'r "newydd da" i'r addfwyn (Lc 4:18, 19)

Rhannodd Crist y fraint hon gyda'i ganlynwyr (Mth 10:5-10)

Hyfforddodd y disgyblion sut i ogoneddu'r Tad (In 15:8)

A ninnau'n ddisgyblion iddo, rhaid inni ddilyn Iesu (1Pedr 2:21)

Rhaid inni wrthod cerdded yn ffordd y byd drwg (Eff 4:17)

Dylem adnewyddu ein meddwl, ymgysegru, cael ein bedyddio, gwneud ewyllys Duw (Mth 16:24; Rhuf 12:1, 2)

Hanfodol efelychu Crist Iesu wrth dreulio cymaint o amser ag sy'n rhesymol bosib' yn y gwaith o dŷ i dŷ a thystiolaethu anffurfiol (Mc 1:38; In 4:6-30)

Fe wyddom 'nawr am ffyrdd o ogoneddu Duw, ond sut medrwn ni ei ogoneddu â phopeth sydd gennym?

SUT MEDRWN OGONEDDU DUW Â PHOPETH SYDD GENNYM (10 mun.)

Nid maint ein heiddo sy'n gogoneddu Jehofah (Lc 21:1-4)

Y peth pwysig yw: 'Ydym ni'n defnyddio *popeth* sydd gennym i'w ogoneddu?

Mae amgylchiadau gwahanol yn hanes pawb ohonom, ond mae gan bob un asedau y gall eu defnyddio i ogoneddu Duw: talent, addysg, ieuencid, profiad, bywyd di-briod, pethau materol (*w90 7/1 29-31*)

Gellir defnyddio amodau anodd mewn bywyd hyd yn oed i ogoneddu Jehofah

(Siaradwr: Datblygwch un neu ragor o'r pwyntiau uchod fel bydd amser yn caniatáu. Gweler *Index* dan y pennawd "*Life Stories of Jehovah's Witnesses*")

Er enghraifft, ystyriwch dalent:

Mae llawer sy'n dod i dderbyn gwybodaeth am y gwirionedd yn dalentog

Mae rhai wedi bod yn llwyddiannus iawn fel actorion, cerddorion, sêr y byd chwaraeon, peiriannwyr, ac yn y blaen

Mae'r rhain yn gogoneddu Jehofah drwy roi'r Deyrnas yn flaenaf, ac felly'n dangos fod bwriadau Duw yn fwy gwerthfawr yn eu golwg na llwyddiant bydol (*g84 12/8 19-20; g86 7/22 17-20*)

Mewn llawer achos mae'r rhain wedi medru defnyddio'u talentau er lles yn eu cynnal eu hunain yn y gwaith arloesi, mewn gwasanaeth yn Bethel, neu mewn ffurf arall ar wasanaeth cysegredig (*g89 2/22 16*)

Beth amdanoch chi? 'Ydych chi'n defnyddio'ch talentau neu'ch asedau eraill i ogoneddu Duw?

Nid rhyw esgus o wasanaeth yw hyn, rhywbeth wnaiff y tro, ond gwasanaeth â'n holl galon, enaid, a nerth (Mc 12:29, 30)

Rhaid inni lenwi'n bywydau â gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaith Jehofah (1Cor 15:58)

Felly y down â gogoniant i'w enw (Dat 14:7)

CYNORTHWYON I OGOINEDDU DUW (10 mun.)

Angen gwranddo ar lais Jehofah ac ar gyfarwyddiadau ei Fab (Mth 17:5; Heb 4:7, 10)

Dim ond fel hyn y cawn wybodaeth gywir, na fedrwn ogoneddu Duw yn feddylgar hebddi (In 17:3)

Dylem ymgynnull gyda'r rhai sydd yn gogoneddu Duw, yn hytrach na'n hynysu ein hunain

Mae gweithredu unol, cyfundrefnol felly'n bosib' er mwyn cyfoethogi gogoneddu Duw (Heb 10:23-25)

Gallwn ddysgu oddi wrth esiamplau o'r gorffennol o ddynion a gwragedd cymeradwy gan Jehofah a wasanaethodd Dduw er gogoniant iddo, a'u hefelychu nhw (Heb, pennod 11)

Iesu Grist yw'r esiampl pennaf (Heb 12:1-3)

Cawn esiamplau ardderchog hefyd yn yr apostolion (*w*90 6/1 10-20; *w*90 6/15 10-25)

Rhaid dyfalbarhau mewn gweddi ar Dduw am nerth i wrthsefyll ymosodiadau Satan a'i fyd ac felly osgoi "cilio'n ôl" (Heb 10:39; Lc 21:34, 36; Iago 4:8; *w*82 3/1 22 ¶6)

CAWN WOBRAU AM OGOINEDDU DUW Â PHOPETH SYDD GENNYM (5 mun.)

Cawn fodlonrwydd o wybod ein bod yn ceisio canlyn patrwm Iesu Grist, a ogoneddai'r Tad bob amser (In 17:4, 5)

Cawn dawelwch meddwl o wybod nad gogoneddu rhyw greaduriaid 'rydym ond yn hytrach ogoneddu'r unig Un sy'n deilwng o'n clod ac yntau'n Frenin Goruchaf (Salm 145:3; Dat 4:11; *w*90 9/15 11-12)

Hyd yn oed 'nawr gallwn fwynhau edrych ymlaen at y wobr addawedig—bywyd tragwyddol dan gymeradwyaeth Jehofah (1Sam 2:30; *w*87 12/15 20 ¶21)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)